



Chartered
Institute of
Housing
Cymru


Cipolwg ar y Sector 2025:

Arolwg o weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau ein harolwg cipolwg ar y sector diweddaraf o weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru. Mae'r gyfres hon o arolygon yn darparu data amhrisiadwy ar brofiad gweithwyr tai proffesiynol o lygad y ffynnon yng Nghymru. Ceisiodd arolwg 2025 sefydlu sut mae'r sector yn rheoli blaenoriaethau cystadleuol datblygu'r cartrefi sydd eu hangen arnom ac ôl-osod ein cartrefi presennol. Gofynnodd hefyd i'r sector am effaith bosibl penderfyniad llywodraeth y DU i gynyddu cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr.

Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod mis Chwefror 2025 a derbyniwyd cyfanswm o 69 o ymatebion. Er bod hyn yn is na'r nifer o ymatebion blaenorol i'n cipolygon ar y sector, mae'r canlyniadau'n dangos naratif parhaus o bobl sydd eisiau gweithio yn y sector i wneud gwahaniaeth, ond sydd angen mwy o gymorth oherwydd y pwysau sydd arnynt. Gweithiodd yr ymatebwyr yn y canlynol:



Gwahaniaeth allweddol ar gyfer y cipolwg ar y sector eleni yw bod unigolion sy'n gweithio mewn sefydliadau trydydd sector wedi ymateb hefyd. Ni fu'r rhain yn rhan o gipolygon ar y sector eraill. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn gweithio yn y trydydd sector wedi'u cyflogi fel gweithwyr allgymorth, gweithwyr cefnogi a gweithwyr cefnogi cysgu allan penodedig. Roedd ymatebwyr o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol wedi'u cyflogi fel swyddogion tai, swyddogion polisi, cyfarwyddwyr tai ac arweinwyr timau digartrefedd. Bu i ni dderbyn ymatebion hefyd gan bobl sy'n gweithio mewn cyllid ac adnoddau dynol. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai o'r tueddiadau allweddol yn yr ymatebion i'r arolwg.

Crynodeb gweithredol

Mae'r arolwg hwn wedi parhau â'r naratif bod pobl yn gweithio ym maes tai am eu bod eisiau cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r bobl ac yn y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt.

Y gwahaniaeth a wnawn o ddydd i ddydd i bobl sy'n byw yn ein cymunedau, gan wneud ein gorau glas i'w helpu i ffynnu yn hytrach na dim ond goroesi.

Gan adlewyrchu cipolygon sector blaenorol a gynhaliwyd yn 2024 a 2023, roedd ymatebwyr yn glir mai eu prif flaenoriaeth tai oedd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi. Ystyriwyd hefyd bod y cyflenwad cynyddol hwn o gartrefi yn fesur allweddol o ran mynd i'r afael â digartrefedd cynyddol yng Nghymru. Ond er gwaethaf y gydnabyddiaeth bod angen mwy o gartrefi, nid yw 83 y cant o ymatebwyr yn hyderus nac yn sicr y bydd targed presennol llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel erbyn 2026 yn cael ei gyflawni. Y rhesymau am hyn yw diffyg cyllid a phroblemau parhaus gyda'r system gynllunio. Teimlodd rhai ymatebwyr hefyd fod llywodraeth Cymru'n dangos diffyg ffocws wrth gyrraedd y targed.

Roedd diffyg adnoddau, llwythi gwaith mawr a gweithlu gostyngol yn bwysau allweddol i'n hymatebwyr, thema gyffredin mewn adroddiadau cipolwg ar y sector diweddar. Roedd cymdeithasau tai hefyd yn teimlo bod newidiadau polisi'n eu rhoi o dan bwysau gyda diffyg amser i weithredu newidiadau polisi. Mae'r pwysau hyn yn parhau i gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant meddyliol gweithwyr tai proffesiynol. Nododd dau draean o ymatebwyr awdurdodau lleol a chymdeithasau tai fod yna effaith. Eto i gyd, ystyriwyd bod cyflwyno wythnosau pedwar diwrnod a'r balchder o weld canlyniad da yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant meddyliol unigolion.

Roedd yr ymatebwyr yn hynod o glir o ran yr hyn yr oeddent am ei ofyn i Lywodraeth Cymru. Roedden nhw eisiau mwy o gyllid ac iddi wrando ar y sector. I glywed mewn gwirionedd yr hyn y mae'r sector yn ei ddweud wrthi am newidiadau polisi. Roedd rhai'n glir bod angen ymagwedd fwy cydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n wynebu tai ac mai'r ateb yw strategaeth tai i Gymru.

Canfyddiadau'r arolwg

Beth yw eich cymhelliad dros weithio yn y sector tai

Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio ym maes tai i wneud gwahaniaeth a helpu trigolion a chymunedau, gydag 84 y cant yn nodi mai dyma eu rheswm dros weithio ym maes tai. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ymateb yn 2024 lle'r oedd 77 y cant o ymatebwyr yn gweithio ym maes tai i wneud gwahaniaeth. Amlygodd ymatebion eraill i'r arolwg ddiwylliant a gwerthoedd eu sefydliad a boddhad yn y swydd.

"Y gallu i gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl trwy ddarparu llety iddynt, gan gyfrannu at eu llesiant ac ansawdd bywyd cyffredinol"


"Dim ond os oes ganddyn nhw gartrefi a chymunedau o ansawdd da y gall pobl ffynnu. Rwy'n hoffi'r ffaith fy mod yn cyfrannu at hyn. Rwyf hefyd yn mwynhau bod yn rhan o gymuned o weithwyr tai proffesiynol yng Nghymru"

"Mae cael cartref diogel, cynnes, fforddiadwy yn sylfaen i fywyd. Rwy'n dewis defnyddio fy sgiliau a'm profiad i sicrhau y gall ein sefydliad gael yr effaith fwyaf posibl mewn ardal o amddifadedd sylweddol. Mae hynny'n ddigon o gymhelliant."

O ran tai, beth yw'r brif flaenoriaeth?

Fel y gwelwyd yng nghipolygon ar y sector 2024, y brif flaenoriaeth tai i ymatebwyr oedd cynyddu'r cyflenwad o gartrefi gyda 48 y cant yn nodi mai dyma oedd eu prif flaenoriaeth. Teimlai ymatebwyr hefyd fod cymorth tai a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn flaenoriaeth ac roedd hyn yn aml yn gysylltiedig â'r angen am fwy o gartrefi, o'r math cywir, gyda'r cymorth cywir i'r unigolyn. Yn y cipolwg hwn roedd yr angen i renti fod yn fwy fforddiadwy a'r argyfwng costau byw yn flaenoriaeth i naw y cant o'r ymatebwyr. Fel y mae ffigur un yn ei ddangos dyma flaenoriaeth newydd ar gyfer 2025, ac mae o bosibl yn arwydd o effaith barhaus yr argyfwng costau byw ar ein tenantiaid a'n cymunedau.

Ffigur un: Prif flaenoriaeth tai




"O ystyried yr argyfwng tai presennol sy'n bodoli yng Nghymru; gyda'r lefel uchaf erioed o ddigartrefedd a phobl yn byw mewn llety dros dro; rhaid mai'r flaenoriaeth bennaf o ran tai yw datblygu a darparu mwy o gartrefi cymdeithasol ar draws Cymru."

Pa fesurau ychwanegol sydd eu hangen i fynd i'r afael yn ddigonol â digartrefedd yng Nghymru?

Amlinellodd ein cipolwg ar y sector 2024 fod 44 y cant o ymatebwyr yn gweld cynnydd yn nifer y cartrefi fel mesur allweddol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru. Adlewyrchir hyn yn ein cipolwg ar y sector 2025 gyda 42 y cant yn gweld cynnydd yn nifer y cartrefi sydd eu hangen i fynd i'r afael â digartrefedd. Gan adlewyrchu hefyd ein cipolwg ar y sector 2024, roedd ymatebwyr mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai hefyd am weld cynnydd yn y cyllid er bod y gyfran wedi cynyddu ychydig. Yn 2024 roedd yn 14 y cant o ymatebwyr yn 2025 ac roedd yn 19 y cant o ymatebwyr. Mae'r cynnydd hwn mewn cyllid yn gysylltiedig â datblygu mwy o gartrefi, darparu'r lefel gywir o wasanaethau cymorth a sicrhau bod y gweithlu'n derbyn adnoddau priodol.

Gwahaniaeth allweddol yn ein cipolwg ar y sector 2025 oedd yr angen i fynd i'r afael ag anfforddadwyedd tai, sef blaenoriaeth allweddol i ymatebwyr trydydd sector ynghyd â'r angen i atal digartrefedd yn gynharach. Mae ffigur dau'n darparu dadansoddiad llawn o'r mesurau.

Ffigur dau: Mesurau ychwanegol sydd eu hangen i fynd i'r afael â digartrefedd



"Adnoddau, mae bob amser yn hawdd gofyn am y pethau hyn ond mae dirfawr angen y cymorth a'r darpariaethau gofynnol. Mae angen eiddo hefyd, a wynebwr cryn dipyn o anawsterau wrth adeiladu cartrefi."


"Cyflenwad tai mwy a phroses lai biwrocraidd"

"Mwy o gefnogaeth i gynnal tenantiaethau. Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwahanol fathau o gartrefi a meddwl yn fwy cydgysylltiedig am gymorth iechyd meddwl a chymorth caethineb."

Pa mor hyderus ydych chi y bydd y sector tai'n cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel?

Fel y dangosir yn ffigur tri, nid yw mwyafrif yr ymatebwyr (83 y cant) yn sicr nac yn hyderus y bydd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn cael ei gyrraedd. Mae hyn yn uwch na'r 71 y cant o ymatebwyr nad oeddent yn siŵr neu ddim yn hyderus y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd yn arolwg cipolwg ar y sector 2024.

Ffigur tri: Lefel hyder wrth gyrraedd y targed o 20,000 o gartrefi ychwanegol



Rydym hefyd wedi edrych ar lefel yr hyder o fewn cymdeithasau tai, awdurdodau lleol a'r trydydd sector a nodwyd y canlynol:


- nid oedd 80 y cant o ymatebwyr mewn cymdeithasau tai'n hyderus neu'n sicr y bydd y targed yn cael ei gyrraedd
- nid oedd 100 y cant o ymatebwyr mewn awdurdodau lleol yn hyderus neu'n sicr y bydd y targed yn cael ei gyrraedd
- nid oedd 83 y cant o ymatebwyr yn y trydydd sector yn hyderus neu'n sicr y bydd y targed yn cael ei gyrraedd.

Wrth edrych ar lefelau swydd ymatebwyr o fewn eu sefydliadau, nid oedd 83 y cant o ymatebwyr mewn swyddi arweinyddiaeth uwch yn hyderus y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd. Yn ein cipolwg ar y sector 2024 roedd 70 y cant o'r ymatebwyr hynny mewn swyddi arweinyddiaeth uwch.

Y rheswm dros eich lefel hyder o ran cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel

Gan nad oedd mwyafrif yr ymatebwyr yn hyderus neu'n sicr y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd, mae ffigur pedwar yn rhoi'r rhesymau dros y lefel isel hon o hyder. Fel y dangosir yn ffigur pedwar, yn 2025, roedd ystod ehangach o resymau nag yn 2024 pam nad oedd ymatebwyr yn hyderus neu'n sicr na fydd y targed yn cael ei gyrraedd. Ac eto, y prif reswm ar draws 2025 a 2024 yw'r cyllid annigonol o hyd, wedi'i ddilyn yn agos gan gyfyngiadau cynllunio a'r prinder sgiliau. Yr hyn sy'n ddi-ddorol yn ymatebion 2025 yw bod ychydig dros un o bob deg o ymatebwyr yn teimlo nad oes digon o ffocws gan lywodraeth Cymru o ran goresgyn y rhwystrau i gynyddu datblygiad neu nad yw tai'n chwarae rhan ddigon mawr ym mlaenoriaethau'r llywodraeth. Mae ffigur pedwar yn rhoi trosolwg o'r rhesymau eraill pam fod diffyg hyder y bydd y targed yn cael ei gyrraedd.

Ffigur pedwar: rheswm dros lefel hyder o ran cyrraedd y targed 20,000




"Mae cyllid cyfalaf yn annigonol i gyrraedd y targed, yn rhannol oherwydd pwysau chwyddiant yn y sector adeiladu tai ond mae hefyd yn annigonol i ddarparu ein cynlluniau wrth gefn am dair blynedd arall am fod y rhaglen wedi'i hymrwymo'n llawn. Mae rhaglenni Datblygu'r Cynghorau eu hunain wedi'u gor-ymrwymo fel y mae, a bydd y costau sy'n gysylltiedig â SATC23 yn mygu potensial datblygu ymhellach."

"Cost a chynllunio. Mae gennyf bryderon hefyd o ran sut y caiff y stoc tai bresennol ei huwchraddio pan na fydd yn bosibl symud pobl i wneud y gwaith, efallai. Costau cynyddol deunyddiau, a diffyg peirianwyr medrus i wneud y gwaith. Problem gydag amserlenni o ran gallu gwneud gwaith ar ac o fewn eiddo presennol. Dydw i ddim yn credu bod Llywodraeth Cymru yn deall cymhlethdod y problemau'n llawn."

A yw uchelgeisiau datblygu a datgarboneiddio presennol eich sefydliad yn gydnaws â lefel bresennol y cyllid gan Lywodraeth Cymru?

Wrth siarad ag aelodau yr oeddem yn clywed bod sgysiau'n digwydd mewn rhai sefydliadau ynghylch yr angen posibl i gwtogi ar ddatblygu cartrefi newydd er mwyn talu'r gost o ôl-osod ein cartrefi presennol. O ganlyniad, ychwanegwyd cwestiwn penodol at arolwg eleni i bennu graddfa'r hyn o beth ar draws y sector. Gadawodd mwyafrif ymatebwyr y trydydd sector y cwestiwn hwn yn wag neu roeddent yn ansicr a oedd yr uchelgeisiau'n gydnaws. O'r herwydd, dim ond ymatebion gan gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol y mae ein dadansoddiad yn eu hystyried ar gyfer y cwestiwn hwn. Fel y dangosir yn ffigur pump ni allwn ddod i gasgliad pendant oherwydd y nifer o ymatebwyr a nododd eu bod yn ansicr a yw lefel y cyllid gan lywodraeth Cymru yn ddigonol i gyrraedd targedau datblygu a datgarboneiddio.

Ffigur pump: A yw targedau datblygu a datgarboneiddio yn gydnaws â lefel y cyllid?



Ac eto, er nad oedd y cwestiwn hwn yn rhoi ateb pendant, amlinellodd rhywfaint o'r naratif a ddarparwyd ar gyfer y cwestiwn blaenorol ynghylch hyder o ran cyrraedd y targed o 20,000 y pwysau ychwanegol yr oedd SATC yn eu hwynebu.

"Mae SATC yn rhwystr - er bod ei hangen, mae'r gost o adeiladu eiddo at y safon hon yn ormodol. Mae yna brinder crefftwyr sy'n gallu adeiladu cartrefi carbon isel, dylai mwy fod wedi'i wneud 10-15 mlynedd yn ôl i sicrhau bod diwydiant adeiladu Cymru'n barod am hyn."

"Mae cyllid cyfalaf yn annigonol i gyrraedd y targed, yn rhannol oherwydd pwysau chwyddiant yn y sector adeiladu tai ond mae hefyd yn annigonol i ddarparu ein cynlluniau wrth gefn am dair blynedd arall am fod y rhaglen wedi'i hymrwymo'n llawn. Mae rhaglenni Datblygu'r Cynghorau eu hunain wedi'u gor-ymrwymo fel y mae, a bydd y costau sy'n gysylltiedig â SATC23 yn mygu potensial datblygu ymhellach."


"Nid oes gennym yr arian i ddatgarboneiddio ein cartrefi fel sy'n ofynnol o dan y SATC newydd ac nid oes digon o grant tai cymdeithasol ar gael i gyflawni ein huchelgeisiau."

Beth yw rhai o'r pwysau rydych yn eu hwynebu yn eich rôl ar hyn o bryd?

Yn 2024 y prif bwysau oedd diffyg adnoddau a/neu gyfyngiadau ariannol gyda 40 y cant o ymatebwyr yn nodi bod hwn yn faich. Mae hyn wedi cynyddu i 53 y cant o ymatebwyr yn 2025. Mae diffyg adnoddau'n rhoi pwysau sylweddol ar y rhai sy'n gweithio yn y trydydd sector gyda 75 y cant o ymatebwyr y trydydd sector yn nodi'r pwysau hyn. Efallai nad yw hynny'n syndod, yn erbyn naratif o gymhlethdod cynyddol anghenion cymorth a galw cynyddol am wasanaethau cymorth ledled Cymru. I ymatebwyr sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, y prif bwysau yw gweithlu gostyngol gyda 56 y cant o ymatebwyr yn nodi bod hwn yn faich. Nid oedd hyn yn cael ei ystyried yn un o'r pwysau yn 2024.

I ymatebwyr sy'n gweithio yn y sector preifat eu pwysau presennol hwy hefyd oedd diffyg adnoddau a gweithlu gostyngol. Mae ffigur chwech yn rhoi trosolwg o'r pwysau presennol yr oedd ymatebwyr yn eu hwynebu.

Ffigur chwech: Pwysau presennol



DS Gan mai dim ond un y cant o ymatebwyr oedd y sector preifat, nid ydym wedi eu cynnwys ar y siart gan fod y cyfrannau ar gyfer y grŵp hwn mor fach.

Yn wahanol i 2024, ni ddywedodd unrhyw ymatebwyr nad oeddent o dan unrhyw bwysau yn eu rôl bresennol. Mae hyn yn awgrymu bod y pwysau ar ein gweithwyr tai proffesiynol wedi cynyddu.

Sut fydddech chi'n mynd i'r afael â rhai o'r pwysau hyn?

Fel yr amlinellwyd gan ymatebwyr yng nghipolygon ar y sector 2023 a 2024, mae angen mwy o gyllid ac adnoddau i gynyddu maint y gweithlu. Adleisiodd ymatebwyr hefyd y teimladau a amlinellwyd yng nghipolwg ar y sector 2024 fod angen i lywodraeth Cymru fod yn fwy realistig ynghylch terfynau amser ar gyfer ceisiadau grant, gweithredu polisiau newydd a'r angen am dorri biwrocratiaeth yn y system.

"Mae gan lywodraeth leol, llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU i gyd agenda wahanol, mae llawer gormod o fiwrocratiaeth yn y system."

"Stopiwch lywodraeth Cymru rhag cyflwyno pethau newydd drwy'r amser. Mynnwch i adrannau llywodraeth Cymru siarad â'i gilydd fel na chyhoeddir polisiau sy'n gwrthdaro. Mae angen i lywodraeth Cymru ganiatáu amser i bethau ymsefydlu cyn mynd ati i 'addasu'."


"Mae gormod o bwysau ar y system dai gyfan a byddai angen cyllid ychwanegol sylweddol i fynd i'r afael â'r pwysau sydd wedi'u rhestru. Bydd gorfodi pwysau ychwanegol ar y system ac ar awdurdodau lleol yn y pen draw, drwy newid rheoleiddiol a deddfwriaethol sydd ar fin digwydd, ond yn gwneud pethau'n waeth. "

"Mae'r llwyth gwaith bob amser wedi bod yn ormodol mewn tai cymdeithasol oherwydd natur adweithiol y gwaith a wnawn a'r amgylchedd allanol sy'n newid drwy'r amser. Credaf fod yr hyn a ddisgwylir gan ddarparwyr tai cymdeithasol yn hollol wirion, a'n bod erbyn hyn ymhell y tu hwnt i orfod darparu gwasanaethau landlordiaid traddodiadol. Staff tai sy'n gwneud iawn am y diffyg yn narpariaeth y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, yr ALI ac ati. Mae staff tai yn cael eu gadael yn delio â phroblemau lluosog o fewn ein stoc oherwydd bod asiantaethau eraill yn gallu cerdded i ffwrdd. Dylai fod llawer mwy o atebolrwydd o ran darparwyr gwasanaethau eraill a mwy o gydweithio. Rwy'n meddwl y dylai rôl darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru gael ei hadolygu'n a'i hailbennu'n gyfan gwbl er mwyn sicrhau ein bod ni a'r holl asiantaethau eraill yn glir o ran beth yw ein swyddogaeth mewn gwirionedd ac nid yr hyn y maen nhw a'n tenantiaid yn credu ei fod. Mae'r disgwyliad yn enfawr ac yn cynyddu'n barhaus ac mae staff yn dioddef mwy a mwy o gamdriniaeth oherwydd na allant fodloni'r disgwyliadau sydd wedi tyfu'n esbonyddol."

Pa effaith y mae'r pwysau hyn yn ei chael ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Amlinellodd ein ciplun o'r sector yn 2025 fod 66 y cant o ymatebwyr yn cael rhywfaint o effaith ar eu hiechyd meddwl a'u lles o ganlyniad i'r pwysau yr oeddent yn eu hwynebu. Yn 2024 roedd yn 80 y cant. Er y bu rywfaint o welliant yn y niferoedd sy'n profi effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl, mae bron i ddwy ran o dair o'n gweithwyr tai proffesiynol yn dal i brofi effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles oherwydd y pwysau y maent yn ei wynebu yn eu rolau. Yn 2025 roedd yr effaith negyddol yn fwy tebygol ar gyfer y rheini a oedd yn gweithio mewn cymdeithas tai, ond yn 2024 roedd yn fwy tebygol ar gyfer y rheini a oedd yn gweithio mewn awdurdod lleol. Mae ffigur saith yn darparu dadansoddiad llawn.

Ffigur saith: Effaith ar iechyd meddwl a lles



Gan adlewyrchu arolygon cipolwg ar y sector blaenorol, gofynnwyd hefyd i ymatebwyr ddarparu rhywfaint o naratif ynghylch yr effaith yr oeddent yn ei deimlo. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar drawma dirprwyol, effaith llwythi gwaith cynyddol a diwrnodau hir. Eto i gyd, gwnaeth rhai sylwadau ynghylch yr effaith gadarnhaol yr oedd wythnos pedwar diwrnod yn ei chael o fewn eu sefydliad.

“Mae natur tai rheng flaen yn golygu y gall fod yn adweithiol iawn, a gall y llwyth gwaith gyrraedd mewn tonnau. Mae llawer o drawma dirprwyol. Ar hyn o bryd mae llwythi gwaith yn fawr, gyda rhai achosion cymhleth sy'n profi'n anodd eu datrys ac mae hyn yn ychwanegu pwysau ac yn effeithio ar les meddyliol.”

“Rwy'n ystyried gadael y sector.”

“Rwy'n ymladd tân drwy'r dydd - mae'n gwbl flinedig, mae ychydig iawn o newyddion cadarnhaol yn fy niwrnod”

“Rydym yn treialu'r wythnos pedwar diwrnod ac rwy'n teimlo bod hyn yn helpu gyda chydbwysedd bywyd gwaith/cartref.”

A oes unrhyw ffactorau eraill sy'n effeithio'n negyddol ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Dywedodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (29 y cant) fod pethau y tu allan i'r gweithle hefyd yn effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u lles hefyd. Roedd y rhain yn ymwneud â phwysau costau byw, afiechyd teuluol ac anghenion iechyd yr ymatebwyr eu hunain.

"Costau byw yn gyffredinol. Y pwysau i fod yn berchen ar gartref, gwneud yn dda yn fy swydd, cydbwyso bywyd cymdeithasol."

"Incwm isel (yn ôl gwefan y llywodraeth) - dyw'r rôl ddim yn talu'n dda, yn enwedig i berson sengl sy'n byw ar ei ben ei hun."

Pa ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eich iechyd meddwl a'ch lles?

Rhai o'r effeithiau cadarnhaol cyffredin a amlinellwyd gan yr ymatebwyr oedd tîm da, yr wythnos pedwar diwrnod, pan fydd rhywun yn elwa o'u cefnogaeth ynghyd â ffrindiau a theulu cefnogol y tu allan i'r gweithle.

"Mae'r wythnos pedwar diwrnod yn helpu gyda fy iechyd meddwl. Diwrnod i ddatgysylltu ac edrych ar ôl fy hun"

"Pan fydd achos yn cael canlyniad llwyddiannus neu os ydych chi'n teimlo eich bod wedi gwneud y gwaith hyd eithaf eich gallu/wedi mynd yr ail filltir a chael canlyniad cadarnhaol i'r cwsmer"

"Cael gŵr cariadus a ffrindiau agos hynod o dda. A hefyd gweithio gyda thîm da, cefnogol. Mae'n gwmni'n da iawn i weithio iddo ac rwy'n teimlo eu bod yn gofalu am eu gweithwyr."

"Rwy'n hoffi'r ffaith bod fy ngwaith yn fy nghadw 'ar flaenau bysedd fy nhraed'. Bob amser yn gorfod addasu, ymateb, datrys problemau ac ati. Mae gen i hoffter a pharch mawr at y bobl 'dw i'n gweithio gyda nhw. Maen nhw'n aml o'r un anian, ac rwy'n gwerthfawrogi pa mor galed y maen nhw'n gweithio i geisio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac i helpu i gynnal eu tenantiaethau. Rwyf wedi ymrwymo'n aruthrol i'm rôl ac yn ymfalchïo mewn gwybod fy mod yn gwneud y gwaith gorau y gallaf. Rwyf wrth fy modd yn gallu helpu pobl ac er bod fy rôl yn un lled-strategol, rwyf wrth fy modd â'r gallu i weithio gyda thenantiaid ar yr achosion mwy cymhleth i ddod o hyd i atebion cadarnhaol."

Cyhoeddodd llywodraeth y DU newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn eu datganiad yn hydref 2024. Beth yw'r effaith debygol ar eich sefydliad?

Fe wnaethom benderfynu cynnwys y cwestiwn hwn yn y cipolwg ar y sector eleni oherwydd y sylw i hyn yn y newyddion a'r adborth gan aelodau ar effaith debygol y penderfyniad hwn gan lywodraeth y DU. Fe wnaeth rhai ymatebwyr feintiol i'r gost i'r busnes. Roedd hyn yn amrywio o £400,000 i £2.3 miliwn. Darparodd eraill naratif ynghylch yr effaith, gan ganolbwyntio ar anallu i gynyddu'r gweithlu fel y bo angen, gostyngiadau posibl mewn gwasanaethau ac effeithiau posibl ar wasanaethau atgyweirio.

"Llai o gyllideb. Dim cynnydd mewn staff/adnoddau lle bo angen"

"Bydd yn costio £230,000 y flwyddyn i fy sefydliad. Mae hyn yn anodd iawn i'w gymathu o fewn ein cyllidebau. Byddai'n well gennym ddefnyddio'r arian hwn i gefnogi pobl agored i niwed a datgarboneiddio ein cartrefi"


"Mae ein gwasanaeth cymorth HSG wedi'i gomisiynu'n gyfan gwbl gan y trydydd sector a'r effaith fydd gostyngiad mewn gwasanaethau cefnogi yn y dyfodol gan gynyddu'r posibilrwydd o fethiant tenantiaethau a digartrefedd."

"Mae'n rhoi mwy o straen arnom ni'n ariannol fel busnes ac felly'n lleihau'r gwasanaeth y mae tenantiaid yn ei dderbyn. Mae'n rhaid i chi bob amser dorri rhywbeth pan fydd y gyllideb yn cynyddu ac mae'r gost hon hefyd yn refeniw, felly mae costau refeniw yn cael eu torri."

Beth yw'r un peth y byddech yn gofyn i'r llywodraeth ei wneud mewn perthynas â thai yng Nghymru?

Fel y nodwyd dro ar ôl tro ar draws yr ymatebion a roddwyd, y peth pennaf y mae ymatebwyr am i lywodraeth Cymru ei wneud yw cynyddu cyllid i'r sector. Gan adlewyrchu ein cipolwg ar y sector 2024, mae ymatebwyr hefyd eisiau i lywodraeth Cymru wrando mwy ar y sector. Ymateb newydd eleni yw i lywodraeth Cymru lunio strategaeth tai. Mae ffigur wyth yn darparu dadansoddiad llawn.

Ffigur wyth: Un peth y gall llywodraeth Cymru ei wneud mewn perthynas â thai



"Rhoi'r gorau i gyflwyno polisiau a thargedau sydd â bwriad da heb ddeall y goblygiadau llawn ar gyfer awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Un enghraifft o hyn oedd y Ddeddf Rhentu Cartrefi, a oedd yn ddull 'gordd i dorri cnau'. Er bod y bwriad o helpu cwsmeriaid sydd â landlordiaid annibynnol twyllodrus yn dda, mae'r effaith ar awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, sydd eisoes yn cael eu rheoleiddio'n drwm, yn parhau i fod yn sylweddol."

"Ceisiwch fuddsoddi mwy mewn tai cymdeithasol er mwyn darparu tai fforddiadwy da ar gyfer y rhai sydd eu hangen"

"Gweithiwch yn agosach gydag arbenigwyr y sector a chofiwch glywed yn hytrach na dim ond gwrando."

Datblygu strategaeth tai hirdymor sy'n dwyn ynghyd nifer o flaenoriaethau tai presennol ac ar gyfer y dyfodol yng Nghymru gan gynnwys datblygu cartrefi newydd; buddsoddi mewn cartrefi presennol; datgarboneiddio; gofynion cydymffurfio a diogelwch; byddai polisi rhenti cymdeithasol a fforddiadwy yn rhoi eglurder i ddarparwyr tai ynghylch sut y gellir siapio eu cynlluniau buddsoddi yn y dyfodol. Mae posibilrwydd y gallai gofynion ariannol SATC2023 effeithio ar raglenni datblygu ar draws Cymru yn y dyfodol. Dyna enghraifft o pam y byddai strategaeth dai hirdymor o fudd i'r sector tai, ac, yn bwysicaf oll, i bobl Cymru. Dylai'r strategaeth hefyd sicrhau aliniad ar draws deddfwriaeth tai bresennol yng Nghymru gan gynnwys SATC 2023; Deddf Rhentu Cartrefi Cymru; Ffitrwydd i Fod yn Gartref a'r papur gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Pethau i fyfyrio arnynt

Mae cipolwg ar y sector 2025 wedi parhau i ddangos bod pobl yn gweithio ym maes tai am eu bod eisiau gwneud gwahaniaeth i fywydau'r unigolion a'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt a gyda nhw. Ond er gwaethaf yr uchelgais hwn, profir pwysau parhaus o ganlyniad i ddiffyg adnoddau ariannol ac amser ynghyd â gweithlu gostyngol. Mae cymdeithasau tai'n parhau i deimlo pwysau oherwydd newidiadau polisi. Roedd ymatebwyr yn glir yn eu hymatebion bod newidiadau polisi gan y llywodraeth yn aml ar gyflymder na ellid ei reoli neu eu bod yn camddeall yr hyn fyddai ei angen i weithredu'r newid yn y polisi.

Bu tystiolaeth glir o effaith ehangach toriadau yn y sector cyhoeddus yng nghipolwg ar y sector 2025 gyda'r ymatebwyr yn nodi bod staff tai bellach yn gorfod gwneud iawn am diffygion yn narpariaeth gwasanaethau. Amlinellodd ymatebwyr hefyd sut y cawsant eu gadael allan o sgysiau gyda'r maes iechyd a bod rôl tai'n aml yn cael ei hanwybyddu, fel y crynhodd un ymatebwr:

Dylid cynnwys tai mewn sgysiau gyda'r rhai fel iechyd a throedd a chydabod bod tai'n chwarae rhan annatod.

Mae'r sector yn parhau i fod yn glir bod angen mwy o gyllid i ddatblygu cartrefi, sicrhau y gellir cyrraedd targedau datgarboneiddio a sicrhau bod gan y gweithlu adnoddau digonol. Gan ailadrodd yr hyn y gwnaethant ofyn amdano yn 2023 a 2024.

Mae'r sector hefyd eisiau i lywodraeth Cymru wrando arny'n nhw'n agosach. Teimlad arall sydd wedi parhau o'n cipolwg ar y sector 2024. Mae'r cynllun gweithredu rhoi diwedd ar ddiartrefedd yn cynnwys cam gweithredu i greu gweithlu tai sy'n cael ei werthfawrogi. Rhan allweddol o hyn yw gwranddo ar y sector a gweithredu ar y pryderon a godir.

"Llywodraeth Cymru - gwranddo a gweithredu ar adborth gan y sector ynghylch newid deddfwriaethol"

Mae pobl yn gweithio yn y sector tai i wneud gwahaniaeth, ond mae angen iddynt gael cymorth ac adnoddau digonol i sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau y gallant. Fel y nododd un ymatebydd, mae tai'n ymwneud nid yn unig â'r adeilad ond â'r bobl sydd ynddo. Mae'n bryd i ni nid yn unig ystyried darparu'r cartrefi sydd eu hangen arnom ond sicrhau bod gan ein gweithlu ddigon o adnoddau a chefnogaeth i fod y gweithlu a werthfawrogi y mae llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn gam gweithredu allweddol i roi diwedd ar ddiartrefedd yng Nghymru.



**Chartered
Institute of
Housing**
Cymru

I drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud
â gwaith CIH Cymru a sut y gallwn
gefnogi eich sefydliad chi, cysylltwch â:

Matthew Dicks, cyfarwyddwr cenedlaethol Cymru
matthew.dicks@cih.org
02475 312018

Liza Fleming, rheolwr ymgysylltu Cymru
liza.fleming@cih.org
02475 312016

Cerys Clark, rheolwr polisi a materion cyhoeddus
Cymru
cerys.clark@cih.org
07939 302 566
